



Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru Older People's Commissioner for Wales

Credyd Pensiwn: Mae angen gweithredu er mwyn sicrhau nad yw pobl hŷn yn colli allan

Mae bron i un o bob pump o bobl hŷn Cymru yn byw mewn tlodi, ac mae incwm yn crebachu mewn termau real fesul wythnos wrth i chwyddiant barhau i gael effaith.¹ Bydd yr argyfwng costau byw yn gwthio hyd yn oed mwy o bobl hŷn i dlodi dros fisoedd y gaeaf, gan beryglu eu hiechyd yn sylweddol.

Felly, mae'n bwysicach nag erioed bod pobl hŷn yn cael yr holl gymorth ariannol y mae ganddynt hawl iddo, gan gynnwys Credyd Pensiwn, sy'n gallu cynnig gobaith i rai o'r bobl hŷn dlotaf a mwyaf agored i niwed yng Nghymru.

Fodd bynnag, amcangyfrifir nad yw hyd at 80,000 o aelwydydd cymwys yng Nghymru yn hawlio'r Credyd Pensiwn y mae ganddynt hawl iddo. Bob blwyddyn, mae hyn yn golygu bod yw dros £200 miliwn yn aros yn Nhrysorlys y DU heb ei hawlio, yn hytrach na chyrraedd y rhai sydd ei angen fwyaf.²

Mae angen gweithredu i gynyddu'n sylweddol nifer y bobl hŷn yng Nghymru sy'n cael y Credyd Pensiwn y mae ganddynt hawl iddo, er mwyn sicrhau nad ydynt yn dal i gollu allan ar y cymorth hanfodol hwn.

Effaith yr argyfwng costau byw ar bobl hŷn yng Nghymru

Mae Cymru'n wynebu sefyllfa lle na all nifer cynyddol o bobl hŷn fforddio gwresogi eu cartrefi na chael digon o fwyd, sy'n gadael ei ôl ar iechyd corfforol a meddyliol pobl hŷn. Gall tywydd oer a byw mewn cartref oer effeithio ar amrywiaeth o faterion iechyd a'u gwaethygu, gan gynnwys cyflyrau anadlol a chylchredol, clefyd cardiofasgwlaidd ac anafiadau damweiniol.³

Ar ben hynny, y tu hwnt i'r diflastod o brofi tymheredd oer drwy'r amser yn y tŷ a methu â chynhesu na chadw'n gynnes, mae ymchwil hefyd yn dangos bod cysylltiad rhwng tymheredd oer yn y cartref ac iechyd meddwl gwaeth.⁴

Mae mynd heb fwyd neu beidio â bwyta digon dros amser yn arwain at ddiffyg maeth, sy'n cynyddu'r risg fynd yn eiddil, gan olygu bod angen ymweld â'r meddyg teulu a mynd i'r ysbyty'n amlach a gorfod aros yn yr ysbyty'n hirach.⁵

Fodd bynnag, mae effaith bod yn oer a llwglyd ddydd ar ôl dydd yn mynd ymhell y tu hwnt i orfod rhyngweithio'n amlach gyda'r gwasanaeth iechyd. Dylai fod gan bobl hŷn yng Nghymru incwm sy'n galluogi ansawdd bywyd da ac urddasol. Mae sicrhau bod pawb sydd â hawl i Credyd Pensiwn yn ei gael yn un ffordd o wella ansawdd bywyd a cheisio lliniaru effeithiau gwaethaf yr argyfwng costau byw presennol i bobl hŷn yng Nghymru.

Beth yw Credyd Pensiwn a beth mae'n ei wneud?

Mae Credyd Pensiwn yn rhoi arian ychwanegol sy'n gallu helpu gyda chostau byw pobl dros oedran Pensiwn y Wladwriaeth ar incwm isel, gan gynyddu incwm wythnosol person sengl i £182.60 (£278.70 i gyplau).⁶

Mae credyd pensiwn werth £65 yr wythnos ar gyfartaledd i'r rheini sy'n gymwys,⁷ ac mae hefyd yn datgloi hawliau eraill sy'n darparu rhagor o gymorth ariannol, gan gynnwys gostyngiadau i dreth y cyngor a chymorth gyda chostau tai, gofal llygaid a deintyddol am ddim, a Thrwyddedau Teledu am ddim i bobl 75 oed a hŷn.

Ar sail y data diweddaraf sydd ar gael gan yr Adran Gwaith a Phensiynau, roedd 83,413 o bobl yng Nghymru yn cael Credyd Pensiwn ym mis Chwefror 2022.⁸

Fodd bynnag, mae'r Adran Gwaith a Phensiynau yn amcangyfrif mai dim ond tua dau o bob tri o'r rheini sy'n gymwys sy'n hawlio Credyd Pensiwn, gyda chyfraddau hawlio is ymysg y rheini sydd dros 75 oed, sy'n golygu bod degau o filoedd o bobl hŷn ledled Cymru yn colli allan ar gymorth ariannol hanfodol.

Pwy allai elwa fwyaf?

Mae effaith tlodi yn cael ei theimlo'n fwy dwys gan rai grwpiau o bobl hŷn nag eraill, a gallai pobl hŷn o'r grwpiau hyn elwa'n arbennig o gael y Credyd Pensiwn y mae ganddynt hawl iddo.

Er enghraifft, nid yw llawer o fenywod hŷn yn cael Pensiwn 'llawn' y Wladwriaeth, gan eu bod yn fwy tebygol o fod wedi cymryd amser o'r gwaith oherwydd cyfrifoldebau gofalu, ac mae menywod yn fwy tebygol o brofi tlodi parhaus o'i gymharu â dynion. Ar ben hynny, menywod yw oddeutu dau draean o'r rheini sy'n hawlio Credyd Pensiwn. Felly, byddai cynyddu'r nifer sy'n hawlio Credyd Pensiwn yng Nghymru yn helpu i gynyddu incwm menywod yn arbennig.

Mae tlodi ymysg pobl hŷn yn fwy tebygol o effeithio ar bobl sy'n byw ar eu pen eu hunain, gyda 24% o ddynion a menywod hŷn sengl yn byw mewn tlodi incwm cymharol, o'i gymharu â 14% o bobl hŷn sy'n byw fel cwpl.⁹

Hefyd, dangosodd ymchwil gan Age UK ym mis Mai 2021 bod pobl hŷn o grwpiau Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig tua dwywaith yn fwy tebygol o fod yn byw mewn tlodi o'u cymharu â phobl hŷn Wyn.¹⁰

Byddai targedu'r grwpiau hyn yn helpu i sicrhau bod y rhai sydd fwyaf tebygol o fod yn byw mewn tlodi yn cael cymorth ariannol ychwanegol.

Pam nad oes mwy yn hawlio Credyd Pensiwn?

Mae ymchwil gan Independent Age yn dangos bod y rhesymau cyffredin dros beidio â hawlio Credyd Pensiwn yn cynnwys rhesymau ymarferol, fel pobl yn meddwl na fyddent yn gymwys, yn ogystal â rhesymau eraill sy'n ymwneud yn fwy ag embaras a stigma. Roedd tua thraean o'r bobl a gymerodd ran yn yr arolwg barn yn cytuno y byddai hawlio Credyd Pensiwn yn gwneud iddynt 'deimlo'n wael', a dywedodd 16% y byddai gan eu teulu/frindiau farn negyddol am hawlio Credyd Pensiwn.¹¹

Mae hyn yn cyd-fynd â'r dystiolaeth a rannwyd ag ymchwiliad y Pwyllgor Materion Cymreig i'r System Fudd-daliadau yng Nghymru, lle dywedodd un ymatebydd 'nid yw pensiynwyr, yn benodol, "eisiau bod yn faich ar y wladwriaeth".¹²

Mi wnaeth prosiect yn Lerpwl a oedd yn canolbwyntio ar bobl dros 80 oed nad oedd yn hawlio budd-daliadau anabledd gyfsweld â staff a eglurodd mai balchder oedd rheswm llawer o bobl hŷn dros beidio â hawlio'r budd-dal, gan fynnu "Rwy'n gallu ymdopi".¹³ Mae'r agwedd hon yn debygol o gael ei hadlewyrchu yn rhesymeg pobl hŷn dros beidio â derbyn budd-daliadau eraill y mae ganddynt hawl iddynt, gan gynnwys Credyd Pensiwn.

Efallai y bydd pobl hŷn hefyd yn ei chael yn anodd cael gafael ar wybodaeth a chyngor am hawlio Credyd Pensiwn, ac mae allgáu digidol yn rhwystr penodol i hyn. Nid oes gan tua thraean o bobl dros 75 oed fynediad i'r rhyngwrdd neu nid ydynt yn ei ddefnyddio, ac mae tlodi'n cynyddu'r tebygolrwydd y bydd rhywun yn cael ei allgau'n ddigidol.

Cymryd camau i gynyddu nifer y bobl sy'n hawlio Credyd Pensiwn

Er mwyn cyflawni'r cynnydd sylweddol yr hoffai'r Comisiynydd ei weld yn y nifer sy'n hawlio Credyd Pensiwn, mae angen dull 'Tîm Cymru' i helpu i sicrhau ein bod yn manteisio ar bob cyfle i godi ymwybyddiaeth ac nad yw pobl hŷn yn colli allan ar y cymorth y mae ganddynt hawl iddo. Mae'r camau gweithredu allweddol a nodwyd gan y Comisiynydd i gefnogi hyn wedi'u nodi isod.

Bydd y Comisiynydd yn gwneud y canlynol:

- Ymgysylltu â phobl hŷn ledled Cymru er mwyn deall yn well sut mae cynyddu'r nifer sy'n hawlio Credyd Pensiwn a mynd i'r afael â'r heriau sy'n codi yn sgil yr argyfwng costau byw.
- Cynnal uwchgyhadledd Credyd Pensiwn i ysbrydoli a chefnogi camau gweithredu gan fudiadau cenedlaethol a chymunedol ledled Cymru.
- Cyfarfod ar frys â sefydliadau allweddol fel awdurdodau lleol a'r Adran Gwaith a Phensiynau sy'n gallu dod ag arbenigedd i'r ymgyrch, gan gynnwys ar brosesau a data Credyd Pensiwn.
- Ymgysylltu â Gweinidogion a swyddogion Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU i ddylanwadu ar bolisiâu, ochr yn ochr â chraffu a monitro llywodraethau ar bob lefel i sicrhau bod cynnydd gwirioneddol yn cael ei wneud.
- Defnyddio'r holl sianeli cyfathrebu ac ymgysylltu sydd ar gael i estyn allan at bobl hŷn a'u teuluoedd a chodi ymwybyddiaeth am Credyd Pensiwn a sut mae ei hawlio, yn ogystal â thynnu sylw at yr angen i gynyddu'r nifer sy'n hawlio Credyd Pensiwn.

Dylai Llywodraeth Cymru:

- Cysylltu'n syth â phobl hŷn ledled Cymru i dynnu sylw at bwysigrwydd hawlio Credyd Pensiwn os ydych chi'n gymwys a'r cymorth ehangach y mae hyn yn ei ddatgloi, herio'r stigma o ran hawlio cymorth ariannol, a darparu gwybodaeth am sut mae gwirio cymhwysedd neu wneud hawliad. Er mwyn sicrhau eu bod yn cael yr effaith fwyaf

bosibl, dylai'r negeseuon hyn gael eu darparu gan unigolion adnabyddus y mae pobl yn ymddiried ynddynt, gan ddefnyddio'r teledu, radio a sianeli cyfathrebu eraill.

- Rhoi cyfarwyddyd i sefydliadau mae'n eu hariannu – gan gynnwys y GIG a Fferyllfeydd – i ddefnyddio'r rhyngweithio presennol â phobl hŷn (lle bo hynny'n briodol) i godi ymwybyddiaeth am Credyd Pensiwn a sut mae hawlio, gan ddefnyddio'r dull Gwneud i Bob Cyswllt Gyfrif.¹⁴
- Gweithio gydag awdurdodau lleol i benderfynu sut y gellir defnyddio'r data presennol i ganfod pobl hŷn a allai fod yn gymwys i gael Credyd Pensiwn, a darparu cyllid i gefnogi cyfathrebu / hyrwyddo wedi'i dargedu ar lefel aelwyd drwy lythyr ac e-bost, ochr yn ochr â gweithgarwch ymgyrchu ehangach yn y cyfryngau.
- Edrych am y ffordd orau o sefydlu dulliau o gasglu data a mesur gwelliannau yn y nifer sy'n hawlio Credyd Pensiwn, ar y cyd â'r Adran Gwaith a Phensiynau.
- Gweithio gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau i sicrhau bod y broses hawlio Credyd Pensiwn mor ddidrafferth a rhwydd â phosibl i bobl.
- Darparu cyllid i awdurdodau lleol a'r trydydd sector i ymgymryd â gweithgarwch ychwanegol i gynyddu nifer y bobl sy'n hawlio Credyd Pensiwn.

Dylai awdurdodau lleol wneud y canlynol:

- Fel yr uchod, dylent weithio gyda Llywodraeth Cymru i asesu sut y gellid defnyddio'r data sydd ganddynt i ganfod pobl hŷn a allai fod yn gymwys i gael Credyd Pensiwn a darparu cyfathrebiadau wedi'u targedu ar lefel aelwyd.
- Edrych am gyfleoedd ar gyfer gweithgarwch cymunedol rhagweithiol i godi ymwybyddiaeth o Credyd Pensiwn, gan gynnwys ymgysylltu o ddrws i ddrws wedi'i dargedu lle bo hynny'n bosibl.
- Gweithio gyda mudiadau trydydd sector a grwpiau cymunedol lleol i helpu i ddod o hyd i'r rheini a allai fod yn gymwys i gael Credyd Pensiwn, codi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd hawlio a rhoi cymorth i bobl i wneud hynny.

Mudiadau trydydd sector a grwpiau cymunedol

Mae gan y trydydd sector yng Nghymru eisoes ran hollbwysig yn cefnogi pobl hŷn i hawlio'r Credyd Pensiwn y mae ganddynt hawl iddo, a gallan nhw barhau i ddarparu cymorth drwy:

- Adeiladu ar arferion da presennol a defnyddio ystod gyfredol a helaeth y sector o gysylltiadau ar draws ein cymunedau i dynnu sylw at ymwybyddiaeth o hawliau Credyd Pensiwn, gan weithio gydag awdurdodau lleol fel y bo'n briodol.
- Cyfrannu arbenigedd ar y ffordd orau o gyrraedd pobl hŷn agored i niwed.
- Cefnogi pobl hŷn i hawlio a cheisio hawlio eto os oeddent yn aflwyddiannus o'r blaen, a lle mae amgylchiadau wedi newid.

Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

Mae Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru yn llais ac yn eiriolwr annibynnol ar gyfer pobl hŷn ledled Cymru.

Mae'r Comisiynydd yn gweithredu i diogelu a hyrwyddo hawliau pobl hŷn, rhoi diwedd ar oedraniaeth a gwahaniaethu ar sail oedran, atal cam-drin pobl hŷn, a galluogi pawb i heneiddio'n dda.

Mae'r Comisiynydd yn gweithio i sicrhau Cymru lle mae pobl hŷn yn cael eu gwerthfawrogi, lle mae hawliau'n cael eu cynnal a lle nad oes neb yn cael ei adael ar ôl.

Sut i gysylltu â'r Comisiynydd:

Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
Adeiladau Cambrian
Sgwâr Mount Stuart
Caerdydd
CF10 5FL

Rhif ffôn: 03442 640 670

E-bost: gofyn@comisiynyddph.cymru

Gwefan: www.comisiynyddph.cymru

Twitter: @comisiwnphcymru

-
- ¹Stats Cymru (2021). Ar gael yn: [Canran yr holl unigolion, plant, oedolion oed gweithio a phensiynwyr sy'n byw mewn tldi incwm cymharol ar gyfer y DU, gwledydd y DU a rhanbarthau Lloegr rhwng 1994-95 a 1996-97 a 2017-18 i 2019-20 \(cyfartaledd blynyddoedd ariannol dros 3 blynedd\) \(llyw.cymru\)](#) [cyrchwyd 26 Hydref 2022]
- ²Independent Age (2019), *Credit where it's due: Ending the £3.5 billion Pension Credit scandal*, tud.13. Ar gael yn: [Credit where its due report 0.pdf \(independentage.org\)](#) [cyrchwyd 26 Hydref 2022]
- ³Public Health England/UCL Institute of Health Equity (2014), *Local action on health inequalities: Fuel poverty and cold home-related health problems*, p. 4. Ar gael yn: [Briefing7 Fuel poverty health inequalities.pdf \(publishing.service.gov.uk\)](#) [cyrchwyd 26 Hydref 2022]
- ⁴Public Health England/UCL Institute of Health Equity (2014), *Local action on health inequalities: Fuel poverty and cold home-related health problems*, p. 4. Ar gael yn: [Briefing7 Fuel poverty health inequalities.pdf \(publishing.service.gov.uk\)](#) [cyrchwyd 26 Hydref 2022].
- ⁵Llywodraeth y DU (2017), *Impact assessment: Helping older people maintain a healthy diet: A review of what works*. Ar gael yn: [Helping older people maintain a healthy diet: A review of what works - GOV.UK \(www.gov.uk\)](#) [cyrchwyd 26 Hydref 2022]
- ⁶Gweler [Pension Credit: What you'll get - GOV.UK \(www.gov.uk\)](#) [cyrchwyd 26 Hydref 2022]
- ⁷Pensions Policy Institute (2022) *Pension Facts*. Ar gael yn: <https://www.pensionspolicyinstitute.org.uk/media/139/pension-facts-august-2022.xlsx> [cyrchwyd 26 Hydref 2022]
- ⁸StatXplore- Yr Adran Gwaith a Phensiynau (2021) *Pension Credit*. Ar gael yn: <https://bit.ly/2RUKdYt>
- ⁹StatsCymru (2021) Pensiynwyr mewn tldi incwm cymharol yn ôl math o deulu. Mawrth 2021. Ar gael yn: [Pensiynwyr mewn tldi incwm cymharol yn ôl math o deulu \(llyw.cymru\)](#) [cyrchwyd 26 Hydref 2022].
- ¹⁰Age UK (2021), *Briefing paper: Ethnicity and financial disadvantage in later life*. Ar gael yn: [ethnicity and financial disadvantage in later life may 2021.pdf \(ageuk.org.uk\)](#) [cyrchwyd 26 Hydref 2022]
- ¹¹Independent Age (forthcoming), Thomas Wilson, Phil Mawhinney, Shelley Hopkinson, *Credit Where It's Due: A briefing on low uptake of Pension Credit*.
- ¹²Tŷ'r Cyffredin/Y Pwyllgor Materion Cymreig (2022), *The Benefits System in Wales*. Ar gael yn: [The Benefits System in Wales \(parliament.uk\)](#), p.33 [accessed 26 October 2022]
- ¹³Eurofound (2015), *Access to social benefits: Reducing non-take-up*, Swyddfa Gyhoeddiadau'r Undeb Ewropeaidd, Lwcsembwrg, t.66.
- ¹⁴Gweler Rhwydwaith Iechyd Cyhoeddus Cymru, Gwneud i Bob Cyswllt Gyfrif, drwy [MECC // Rhwydwaith Iechyd Cyhoeddus ::Hafan](#) [cyrchwyd 26 Hydref 2022].